

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Ile rhoddwyd rhybudd)

Canolfan Feddygol Albany
(Pontypridd)

Dyddiad yr arolygiad: 21 Medi
2017

Dyddiad cyhoeddi: 22 Rhagfyr
2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	10
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	12
4.	Beth nesaf?	14
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	15
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	16
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	17

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad â rhybudd o Ganolfan Feddygol Albany, Llawr Cyntaf, 13 Stryd y Farchnad, Pontypridd, CF37 2ST, ar 21 Medi 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un arolygydd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid clinigol.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Roedd y gwasanaeth wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i ddarparu cyngor a thriniaeth ar gyfer rheoli a lleihau pwysau gan ymarferydd meddygol i gleifion sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn. Gwelwyd trefniadau ar gyfer rhoi digon o wybodaeth i gleifion am eu hanghenion iechyd, oedd hefyd yn ystyried eu hanghenion unigol.

Nid oedd unrhyw gleifion yn defnyddio'r clinig ar adeg ein harolygiad, felly nid oedd yn bosibl canfod safbwyntiau uniongyrchol cleifion ynghylch y gofal yr oeddent wedi'i dderbyn. Serch hynny, defnyddiai'r gwasanaeth holiaduron i gael adborth gan gleifion ac roedd y sampl a welsom yn cynnwys sylwadau cadarnhaol ynghylch y gofal a ddarperir yn y gwasanaeth.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus iawn yn eu rolau
- Roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol o ran y driniaeth a dderbyniwyd
- Cynigiwyd gwybodaeth am bob agwedd ar reoli pwysau
- Nid oedd cofnodion y cleifion mor fanwl ag y dylent fod, ond roeddent yn cael eu storio mewn amgylchedd diogel
- Roedd tystiolaeth o roi meddyginiaeth yn ddiogel
- Roedd y clinig yn cynnal archwiliadau mewnol i wella safonau

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Byddai'n llesol pe bai bwrdd adnabod staff yn yr ardal aros fel bod y cleifion yn cael eu hysbysu am y clinigwyr sy'n gweithio yn y clinig
- Mae angen gwella'r manylion o ran cofnodion y cleifion

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Canolfan Feddygol Albany (Pontypridd) wedi'i chofrestru i ddarparu cyngor a thriniaeth annibynnol am reoli a lleihau pwysau ar y Llawr Cyntaf, 13 Stryd y Farchnad, Pontypridd, CF37 2ST.

Cofrestrwyd y gwasanaeth am y tro cyntaf ar 29 Rhagfyr 2008.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys dau feddyg rhan amser a dau weinyddwr/derbynnydd rhan amser.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, roeddem yn fodlon bod y practis yn cynnig gwasanaeth sy'n diwallu anghenion y claf mewn ffordd ddiogel a phroffesiynol.

Roedd y cleifion wedi'u hysbysu'n dda cyn unrhyw ymgynghoriad ac roedd eu barn ar y gwasanaeth yn bwysig ac yn cael ei chydabod.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael safbwyntiau cleifion ynghylch y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 19 o holiaduron:

"Staff cyfeillgar a hawdd mynd atynt. Maen nhw'n gwrando ar yr hyn sydd gennyf i'w ddweud ac yn rhoi cyngor adeiladol mewn ffordd sensitif. Mae staff bob amser wedi bod yn gynnil ac rwy'n gwybod bod yr holl wybodaeth a rennir yn gyfrinachol. Mae'r staff yn ystyried anghenion unigol ac yn darparu cyngor yn unol â hynny. Staff da, onest a gwybodus."

"Staff hyfryd, hyfryd sydd wedi gwneud i fi deimlo'n gyfforddus, yn llawn cymhelliant, a'u bod yn poeni'n ddiffuant am fy nghynnydd."

"Rydw i'n rhyfeddu at y canlyniadau - mae wedi newid fy mywyd. Rwyf wedi colli tair stôn mewn chwe mis ac rwyf yn berson sydd wedi newid. Mae'r staff yn grêt ac maent bob amser yn gwrando ac yn fy ffitio i mewn pan fo angen, hyd yn oed ar y funud olaf. Mae wedi bod yn wych."

Er bod yr amgylchedd yn hen ac wedi dyddio, dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion ei fod yn lân ac yn daclus. Roedd pawb yn cytuno bod y staff yn gwrtais, yn gwrando, ac yn darparu digon o wybodaeth am eu triniaeth. Nid oedd yr adeilad yn addas i bobl gyda phroblemau symudedd.

Roedd polisi cwynion ar y wal yn yr ystafell aros a oedd yn diwallu'r safon ofynnol. Gwnaeth bron pawb a ymatebodd i holiaduron AGIC nodi eu bod yn

gwybod sut i fynegi pryder. Ni fu unrhyw gwynion neu bryderon ers yr arolygiad diwethaf.

Gwnaeth pob un o'r ymatebwyr i'r holiadur raddio eu gofal a'u triniaeth rhwng canolig ac ardderchog.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom bosteri yn cynghori cleifion ar reoli maint prydau bwyd, ymarfer corff a bwyta'n iach. Hefyd, roedd cofnodion cleifion yn dangos bod meddygon yn trafod dewis ffordd iach o fyw wedi'i gyfuno gydag unrhyw driniaeth ragnodedig.

Gwelsom fod meini prawf llym i gleifion cyn i'r clinig gytuno ar apwyntiad gyda chlaf posibl. Roedd hyn yn sicrhau mai dim ond cleifion oedd angen triniaeth oedd yn derbyn apwyntiad.

Urddas a pharch

Roedd cleifion yn cael eu hymgyngghoriadau gyda'r meddygon mewn ystafell breifat i ffwrdd o'r ardal aros.

Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Gwelsom yng nghofnodion y cleifion a rhoddwyd ffurflen wag i ni ei darllen oedd yn dangos bod cleifion yn cael gwybodaeth glir ac yn rhoi caniatâd i gael triniaeth cyn unrhyw ymgynghoriad gyda'r meddygon.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd posterï a thafleuni gwybodaeth ar gael ynglŷn â'r driniaeth roedd y clinig yn ei chynnig. Fodd bynnag, dim ond yn Saesneg roedd y wybodaeth hon ar gael.

Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom edrych ar sampl ar hap o bum cofnod claf a gweld bod y manylion yn brin. Er enghraifft, gwelsom restr o feddyginiaeth bresennol ond nid y rheswm dros ei chymryd. Roedd y wybodaeth yn glir ond byddai'n elwa ar archwiliad er mwyn nodi meysydd i'w gwella.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Gwelsom dystiolaeth o adborth cleifion o'r holiaduron a roddwyd i gleifion gan y gwasanaeth, ac roedd y wybodaeth wedi'i chasglu ar ffurf graff ac yn hawdd ei deall. Roedd yn cael ei harddangos yn y prif fan aros.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roeddem yn fodlon bod y clinig yn cynnig triniaeth ddiogel a sensitif er mwyn diwallu anghenion cleifion unigol.

Roedd meddyginiaeth yn cael ei storio a'i rhoi'n ddiogel.

Roedd y staff wedi'u hyfforddi'n briodol ar gyfer y gwasanaeth roeddent yn ei ddarparu.

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Gwnaethom edrych ar sampl ar hap o gofnodion pum claf ac nid oeddem yn hollol fodlon bod y cynnwys clinigol yn cynnig digon o fanylion (fel y nodir uchod). Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym yr eid i'r afael â hwn gyda'r meddygon ar unwaith.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Yn sgil natur y clinig, prin iawn oedd yr angen ar gyfer rheoli ac atal heintiau, er bod gel dwylo ar gael. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi nad oedd cyfleusterau golchi dwylo yn yr ystafelloedd ymgynghori. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y byddai hyn yn ystyriaeth wrth brydlesu adeilad newydd.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom edrych ar y broses ar gyfer rheoli meddyginiaethau ac roeddem yn fodlon ei bod yn ddiogel. Gwnaethom drafod sut y byddai unrhyw feddyginiaeth oedd wedi dyddio yn cael ei gwaredu a dywedwyd wrthym y byddai unrhyw feddyginiaeth ddiangen yn cael ei chymryd i'r fferyllfa leol neu cynghorwyd cleifion i fynd â hi at eu fferyllfa leol ar gyfer ei gwaredu.

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Ni fu unrhyw faterion diogelu. Roedd yr holl staff wedi'u hyfforddi i nodi ac adrodd am unrhyw bryderon diogelu. Roedd manylion cyswllt lleol mewn ffolder ddiogelu. Edrychwyd ar brosesau recriwtio ac roedd y staff wedi derbyn gwiriadau angenrheidiol cyn dechrau gweithio.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd dau beiriant pwysau gwaed ar gael – un a weithredir â llaw ac un digidol. Roedd y peiriant digidol wedi cael ei raddnodi.¹

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom yng nghofnodion y cleifion fod hanesion meddygol blaenorol ac unrhyw feddyginiaeth gyfredol yn cael eu cofnodi.

Gwelwyd tystysgrifau cyfredol ar gyfer gadael mewn tân, graddnodi'r glorian bwyso, ac asesiadau risg o'r eiddo. Perchennog yr eiddo a oedd yn gyfrifol am arolygiadau nwy a thrydan.

Rheoli cofnodion

Gwelsom fod cofnodion yn cael eu storio mewn amgylchedd diogel a sicr.

¹ Mae graddnodi'r monitor pwysau gwaed yn cadw'r monitor mewn cyflwr da. Bydd hyn yn sicrhau bod y canlyniadau yn gywir a bod y peiriant yn gweithredu fel y'i bwriadwyd gan y gwneuthurwr.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu a monitro ei berfformiad ei hun mewn perthynas â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Roeddem yn fodlon bod rheolaeth ac arweinyddiaeth glir. Roedd y staff wedi'u cyflogi gan y cwmni am gyfnodau hir o amser ac roeddent yn llawn ymwybodol o'r hyn yr oedd yn ofynnol iddynt ei wneud ac i bwy y dylent adrodd yn ôl atynt ar gyfer cyngor a chymorth.

Roedd y staff yn gyfeillgar ac wedi meithrin perthnasau gweithio da gyda'u cleifion oedd yn dychwelyd.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd llinellau eglur o gyfrifoldebau ac roedd y staff yn deall sut i adrodd yn ôl am unrhyw ddigwyddiadau anffafriol. Dywedodd yr holl staff y gallent fynd at uwch-reolwyr gydag unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Dywedodd staff eu bod wedi derbyn arfarniadau blynyddol yn ddiweddar ac roeddent yn hyderus y byddai unrhyw hyfforddiant a nodwyd yn cael ei gynnig, pe bai angen.

Roedd adroddiadau ysgrifenedig o ymweliadau gan yr unigolyn cyfrifol² (Mai 2017) ar gael i ni eu darllen.

Adolygwyd y datganiad o ddiben³ ym mis Gorffennaf 2015 ac adolygwyd y canllaw i gleifion ym mis Gorffennaf 2017.

² Cynrychiolydd y sefydliad neu gwmni yw'r unigolyn cyfrifol.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Ni fu unrhyw bryderon ers yr arolygiad diwethaf. Byddai unrhyw bryderon am feddyginiaeth yn cael eu hadrodd yn unol â gofynion Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Dywedodd staff eu bod yn cael staff cyflenwi dros dro o'r chwaer-bractis yng Nghasnewydd i gynorthwyo pan oedd angen. Roedd hyn fel arfer er mwyn cyflenwi dros wyliau blynyddol neu salwch annisgwyl. Roedd y staff wedi derbyn hyfforddiant priodol yn y meysydd roeddent yn gweithio ynddynt. Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol a hyfforddiant sydd wedi cael ei ddiweddarau yn ffeiliau'r meddygon.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwnaethom edrych ar ffeiliau staff ac roeddem yn fodlon bod yr holl ddogfennau yn gyfredol. Roedd tystiolaeth o ail-ddilysu meddygon ⁴ a chofrestriad blynyddol. Roedd gan yr holl staff adroddiad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

³ Mae datganiad o ddiben yn ddogfen sy'n amlinellu nodau ac amcanion y sefydliad neu'r cwmni.

⁴ Ailddilysiad yw'r broses lle mae'n rhaid i bob meddyg trwyddedig ddangos i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ei fod yn gyfredol ac yn addas i ymarfer.

4. Beth nesaf?

Lle'r ydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bôn't yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael tua 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Diwallu'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Feddygol Albany (Pontypridd)

Dyddiad yr arolygiad: 21 Medi 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Ni nodwyd unrhyw welliannau.				
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Ni nodwyd unrhyw welliannau.				
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Ni nodwyd unrhyw welliannau.	1			

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad: